# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 15/06/16

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig)

**Athrawon:** Heledd Jones, Alwen Watkin

**Swyddogion:** Mrs Mai Bere (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**GwE:** Miss Bethan James (Ymgynghorydd Her)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Tom Ellis, Gweno Glyn, Mrs Elizabeth Roberts (Undeb Bedyddwyr Cymru), Dr. Gwyn Lewis (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Cathryn Davey, Miriam Amlyn (Undeb Athrawon).

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Selwyn Grifiths.

**2. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.**

**3. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Yn wyneb y ffaith bod sawl aelod wedi ymddiheuro am absenoldeb o'r cyfarfod, mai gwell fyddai gohirio ystyriaeth yr Is-gadair tan y cyfarfod nesaf.**

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2016 fel rhai cywir.

## 6. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

(a) Tywysodd Ymgynghorydd Her GwE yr Aelodau drwy daflen a gyflwynwyd yn nodi crynodeb o ganfyddiadau ysgolion gan dynnu sylw mai 4 ysgol gynradd a oedd wedi eu harolygu gan ESTYN yn ystod tymor yr Hydref 2015 ynghyd ag 5 ysgol gynradd, ac 1 ysgol uwchradd yn ystod cyfnod tymor y Gwanwyn 2016. Tynnwyd sylw bod canfyddiad ESTYN o'r farn "Da" yn cynnwys fwy nag Addysg Grefyddol yn unig.

(b) Tywyswyd yr Aelodau drwy hunan arfarniadau Ysgolion Babanod Morfa Nefyn, Cymerau, Foelgron, Manod, Nefyn a Pont y Gof, gan nodi mai'r gobaith ydoedd bod ysgolion wedi dod i farn drwy graffu ar lyfrau a rhoi ystyriaeth i ddata ar addysg grefyddol.

Tynnwyd sylw at engreifftiau o fewn yr hunan arfarniadau gan nodi bod tystiolaeth o feintioli, arsylwadau gwersi a'r ysgolion wedi barnu bod y safonau a'r ddarpariaeth yn dda. O'r hunan arfarniadau gosodir y cyd-destun o'r math o waith a wneir yn yr ysgolion.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol, anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

## 7. CYNLLUNIAU LLYWODRAETH CYMRU AR ADDYSG GREFYDDOL

Atgoffodd Ymgynghorydd Her GwE o fwriad yr Athro Graham Donaldson i ddiwygio cwricwlwm Cymru gan egluro tra bod pynciau'r cwricwlwm yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, bod addysg grefyddol yn gyfrifoldeb i'r CYSAGau lleol a'u bod wedi mabwysiadu fframwaith cenedlaethol gyda'i statws yn gyffelyb i bynciau eraill.

Ymhelaethwyd ymhellach o'r pedwar diben wrth wraidd y cwricwlwm newydd arfaethedig sef cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod I ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod I chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod I fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Caiff y cwricwlwm ei drefnu'n chwe maes dysgu a phrofiad. Nodwyd bod yr Athro Donaldson yn awyddus i'r cwricwlwm gael ei weithredu o'r gwaelod i fyny ac y byddai'n rhaid rhoi cyfle i athrawon ei dreialu. Ymhelaethodd Ymgynghorydd Her GwE ei bod yn rhan o Banel Ymgynghorol a'u bod wedi cwrdd i geisio llunio arweiniad ar "beth yw addysg grefyddol" a hyderir y bydd cyfarfod pellach yn yr wythnosau nesaf fel y gellir rhannu gwybodaeth gyda'r ysgolion arloesol. O safbwynt ysgoliol arloesol yn ardal CYSAG Gwynedd, nodwyd bod arweinyddion yn y gwahanol feysydd wedi eu hadnabod drwy GwE ar gyfer cyd-cynllunio ond mai ychydig iawn o arweiniad sydd wedi ei gyflwyno hyd yma.

O safbwynt yr ysgolion cynradd, nodwyd bod Dellatec (Siwan Tecwyn) yn cynnig cwrs ar ofynion argymhellion yr Athro Donaldson.

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a'r ysgolion arloesol, cadarnhaodd Ymgynghorydd Her GwE y byddai'n rhannu'r rhestr gyda Aelodau CYSAG.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 8. ADDYSG GREFYDDOL A'R FAGLORIAETH

Rhannwyd gwybodaeth gefndirol gyda'r Aelodau gan Ymgynghorydd Her GwE gan nodi bod manyleb ar gyfer Bagloriaeth Cymru a weithredwyd mewn ysgolion ers 2015, gyda nifer o CYSAGau wedi cwyno ac yn amlygu pryderon bod hyn yn niweidiol i Addysg Grefyddol. Penderfynodd Cymdeithas CYSAGau Cymru i lunio holiadur i'w anfon i ysgolion er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd. Bu i 8 ysgol uwchradd o Wynedd gwblhau'r holiadur ac ar y cyfan nodwyd bod ysgolion Gwynedd yn nodi nad oedd llawer o newid. Gwerthfawrogwyd a diolchwyd i'r ysgolion am ymateb gan nodi bod athrawon da yn gwarchod addysg grefyddol.

Nodwyd bod Ysgol Friars wedi cychwyn cynnig 2 wers yr wythnos ac yn parhau gyda'r drefn tan y Nadolig.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Gofyn i Glerc CYSAG anfon llythyr i'r ysgolion i gyfleu diolch a gwerthfawrogiad CYSAG iddynt am eu hymateb i'r holiadur.**

## 9. DIWEDDARIAD GAN YMGYNGHORYDD HER GwE

Adroddodd Ymgynghorydd Her GwE

(a) bod pryderon wedi eu hamlygu yn ddiweddar yng nghyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru yn gysylltiedig ag INCERTS (a weithredir yn yr ysgolion cynradd ar gyfer tracio cyrhaeddiad disgyblion). Nodwyd disgrifiadau lefel o fewn y rhaglen yn briodol ar gyfer pynciau megis Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Ond, ar gyfer addysg grefyddol mae dryswch wedi codi gan bod dau ddisgrifiad sef "Fframwaith Gwreiddiol" a "Fframwaith Enghreifftiol". Nodwyd mai'r disgrifiad cywir i'w ddefnyddio ydoedd "Fframwaith Enghreifftiol". Roedd hyn yn adlewyrchiad ar CYSAG am y diffyg arweiniad i ysgolion o pa ddisgrifiad lefel y dylid ddefnyddio.

Awgrymwyd y dylid ysgrifennu i holl ysgolion cynradd Gwynedd i'w hysbysu i wirio bod y disgrifiadau lefel "Fframwaith Enghreifftiol" yn cael ei ddewis wrth gofnodi Addysg Grefyddol i'r INCERTS oherwydd mai'r lefel hwn sy'n berthnasol i Faes Llafur Cytun Gwynedd a Mon.

(b) TGAU – awgrymwyd y dylid annog Penaethiaid i sicrhau bod athrawon Addysg Grefyddol yn cael mynediad i unrhyw gyrsiau ac i gydweithio gyda Mavis Jones, Pennaeth Adran Addysg Grefyddol Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, sydd yn gydlynydd y rhanbarth ac a fydd ar gael i gynorthwyo Gwynedd a Mon.

(c) Er gwybodaeth, nodwyd bod cwmni CYNNAL wedi ennill contract 5 mlynedd i ddatblygu e-gylchgrawn ar gyfer daearyddiaeth ac y byddai'n fodel da i'w efelychu ar gyfer addysg grefyddol. Penodwyd dau unigolyn o Wynedd fel golygyddion y cylchgrawn sef Huw Dylan, Ysgol y Berwyn, Y Bala, a Noel Dyer, cyn athro yn Ysgol Glan y Mor, Pwllheli. Bydd rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn yn cael ei gyhoeddi ar HWB+ tua diwedd tymor yr Hydref.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Gofyn i Glerc CYSAG anfon llythyr ar ran CYSAG:**

**(i) i holl ysgolion cynradd Gwynedd i ddwyn i'w sylw am yr arweiniad i ddewis "Fframwaith Enghreifftiol" ar gyfer Addysg Grefyddol o fewn yr INCERTS.**
**(ii) i fynegi ei gwerthgawrogiad o'r cynllun 'athrawon arweiniol' GwE er mwyn sicrhau bod athrawon Astudiaethau Crefyddol TGAU yn derbyn cefnogaeth a chyfleoedd i gydweithio wrth baratoi at y manyleb TGAU newydd.**
**(iii) dymuno'n dda i Mefys Edwards Jones, pennaeth adran addysg grefyddol Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch yn ei gwaith fel athrawes arweiniol.**

## 10. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

### (a) Cofnodion cyfarfod diwethaf

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2016 yn Hwlffordd.

Tynnwyd sylw gan Ymgynghorydd Her GwE at y materion canlynol:

- Bod cwrs CBAC wedi ei ohirio
- Bod y Panel Ymgynghorol wedi paratoi canllawiau ar gyfer hawl plenty / rhieni i dynnu allan o addoli ar y cyd

**(b)**Cyflwynwyd enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion.**

**(b) Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar 23 Mehefin 2016 yn Rhyl.**

**(c) Gofyn i Ymgynghorydd Her GwE fwrw pleidlais ar ran CYSAG Gwynedd i'r tri a enwir isod:**

**Mary Parry**
**Huw Stephens**
**Mathew Maidment**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.30 pm

**CADEIRYDD**